**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Clare Pillman
Prif Weithredwr, Cyfoeth Naturiol Cymru

31 Ionawr 2020

Annwyl Clare

**Cyfoeth Naturiol Cymru**

Diolch i chi am fod yn bresennol yn ddiweddar yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 20 Ionawr 2020 pan wnaethom ystyried cynnydd Cyfoeth Naturiol Cymru o ran gweithredu camau gwella, ar ôl rhoi barn amodol ar Gyfrifon Blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru 2017-18.

Cafodd y Pwyllgor heddwch meddwl yn sgîl y cynnydd sylweddol a wnaed gan Gyfoeth Naturiol Cymru wrth fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn flaenorol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac archwilwyr allanol Grant Thornton ar ôl hynny. Mae'r ffordd rydych chi a Syr David Henshaw wedi arwain y sefydliad yn wyneb ei anawsterau, a dangos gafael gref ar y problemau, wedi creu argraff arnom.

Ymhellach i'ch tystiolaeth, a chan gyfeirio at Femorandwm Atodol yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi yn Atodiad 1, paragraff 1.35 bod cynrychiolwyr y diwydiant wedi codi pryderon ynghylch "ansawdd, tryloywder a chysondeb y data mesur sydd gan CNC ar gyfer ardaloedd yn y contractau gwerthu sefydlog a mwy, a'r ffordd y cyflwynir y data hyn gan CNC yn destun pryder arbennig ac yn peri risg sylweddol i ddarpar brynwyr". Hoffem gael mwy o eglurder ynghylch y canlynol:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

- Manylion y fethodoleg a ddefnyddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru i amcangyfrif cyfanswm tebygol y pren, fesul llannerch, i'w werthu.
- Pam roedd cyfanswm tebygol y pren y manylir yn ei gylch mewn llawer o gontractau gwerth sefydlog a mwy yn amrywio'n sylweddol i'r hyn a gyflawnwyd mewn gwirionedd (gweler paragraff 2.8 a Thabl 6 o'r Memorandwm Atodol).
- Y graddau y mae dull Cyfoeth Naturiol Cymru o fesur data'n cyfateb â safonau'r diwydiant, h.y. a yw'r un fethodoleg yn cael ei defnyddio gan y Comisiwn Coedwigaeth a Forestry and Land Scotland?
- Sut mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n gwella ansawdd y data mesur yn ei feddiant.

Edrychaf ymlaen at gael eich ateb.

Yn gywir,



**Darren Millar AC**
**Cadeirydd (Dros Dro)**